

Dyma ni/Meet our staff



Morys Gruffydd

Morys Gruffydd yw Swyddog Datblygu Estyn Llaw, wedi ei leoli yn swyddfa Aberystwyth. Ymysg ei gyfrifoldebau, mae'n ymateb i ymholiadau ac yn ymweld â chyrrff gwirfoddol ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn cynnal sesiynau hyfforddi a datblygu. Mae hefyd yn llunio adnoddau fydd o ddefnydd i fudiadau gwirfoddol i ddatblygu dwyieithrwydd, yn cynnal prosiectau gyda phartneriaethau a rhwydwaith cefnogi Cymunedau yn Gyntaf mewn cydweithrediad â Menter a Busnes, ac yn cynrychioli Estyn Llaw ar amryw o bwyllgorau a digwyddiadau allanol.

Morys Gruffydd is the Estyn Llaw Development Officer and is based in the Aberystwyth office. As part of his remit, he responds to enquiries, and visits voluntary bodies in order to conduct development and training events on both a local and national level. Morys also works on creating resources that the sector will find useful in order to develop

bilingualism. A number of projects are ongoing with local Communities First partnerships and the Communities First Support Network in partnership with Menter a Busnes. Morys also represents Estyn Llaw at external events and committees.

Cysylltwch â Morys ar/ Contact Morys at:

☎ 0800 9177 969
✉ ymhol@estynllaw.org

Elin Mair Griffiths

Elin Mair Griffiths yw Swyddog Maes Estyn Llaw yn Sir Gâr, yn ogystal â Sir Benfro erbyn hyn. Mae Elin yn gweithio o swyddfa laith Cyf. yng Nghastell Newydd Emlyn. Mae'n cydweithio gyda mudiadau fel Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr – CCGSG, Dewis, y Biwro Gwirfoddol a Mentrau laith Myrddin yn Sir Gâr, a'r Gymdeithas

Gwasanaethau Gwirfoddol a'r Fenter laith yn Sir Benfro. Bydd yn barod iawn i helpu unrhyw fudiad gwirfoddol yn y ddwy sir.

Elin Mair Griffiths is Estyn Llaw's Project Officer in Carmarthenshire, as well as Pembrokeshire. Elin works from the laith Cyf. office in Newcastle Emlyn. She works along side organisations such as CAVS, Dewis, the Volunteer Bureau and Mentrau laith Myrddin in Carmarthenshire, and PAVS and Menter laith Sir Benfro in Pembrokeshire. She will be glad to assist any voluntary organisation in both counties.

Cysylltwch ag Elin ar/ Contact Elin at:

☎ 01239 711668
✉ ymhol@estynllaw.org

Delyth Richards

Delyth Richards yw Swyddog Maes Estyn Llaw yng Ngheredigion a Phowys ac mae'n gweithio o'r swyddfa yn Aberystwyth. Ymhlith y mudiadau mae'n cydweithio â nhw, mae Cymdeithasau Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion a Phowys, y Biwro Gwirfoddol a'r Mentrau laith yng Ngheredigion a Phowys.

Delyth Richards is Estyn Llaw's Project Officer in Ceredigion and Powys and works from the office in Aberystwyth. She works along side various bodies including CAVO, the Volunteer Bureau and Cered (the local Menter laith in Ceredigion) and PAVO and the Mentrau laith in Powys.

Cysylltwch â Delyth ar/ Contact Delyth at:

☎ 0800 9177 969
✉ ymhol@estynllaw.org

Estyn Llaw



Bwletin Newyddion 2

News Bulletin 2

Estyn Llaw yn Gwasanaethu'r Sector Gwirfoddol


Ers sefydlu cynllun Estyn Llaw yn 2000, mae mudiadau gwirfoddol ledled Cymru wedi derbyn cymorth a chefnogaeth gyda materion yn ymwneud â datblygu dwyieithrwydd. Mae rhan helaeth o'r gwaith yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth gyda chyrrff megis y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Mentrau laith.

Llywodraeth y Cynulliad drwy Fwrdd yr laith Gymraeg yw prif gyllidwyr cynllun Estyn Llaw.

Estyn Llaw Offers a Helping Hand

Since the Estyn Llaw scheme was established in 2000, voluntary organisations in all parts of Wales have received advice and support with issues to do with developing bilingualism. A lot of the work is done in partnership with organisations such as the County Voluntary Councils and the Mentrau laith.

Estyn Llaw is mainly funded by the Welsh Assembly Government through the Welsh Language Board.



Datblygu Dwyieithrwydd yn y Sector Gwirfoddol
Developing Bilingualism in the Voluntary Sector

RhSGBCC Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru



Mae Estyn Llaw wedi bod yn cydweithio gyda Menter a Busnes, fel aelod o Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn cynorthwyo'r aelodau eraill yn y Rhwydwaith Gefnogi i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â dwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg. Ymhlith yr aelodau mae'r BVSNW. Fel rhan o'r prosiect, mae Elin, un o swyddogion maes Estyn Llaw, wedi ymweld â Chanolfan Menywod yng Nghaerdydd er mwyn cynnal dwy sesiwn ar Gymru a'r iaith Gymraeg ar gais grŵp menywod y BVSNW. Cafwyd cyfle i gymharu profiadau o fyw mewn cymunedau amlieithog.

BVSNW (Black Voluntary Sector Network Wales)

Estyn Llaw has been working alongside Menter a Busnes, as a member of the Communities First Support Network, to assist other members of the network in raising awareness about bilingualism and the Welsh language. One of those members is the BVSNW. As a part of the project, Elin, one of Estyn Llaw's Project Officers, has visited a Women's Centre in Cardiff in order to conduct two sessions about Wales and the Welsh language at the request of the BVSNW Women's Group. The events provided an opportunity to share experiences of living in multilingual communities.



Estyn Llaw
Blwch Post/PO Box 187
Aberystwyth SY23 3ZE

☎ 0800 9177 969
✉ ymhol@estynllaw.org
🌐 www.estynllaw.org



Estyn Llaw
Blwch Post/PO Box 187
Aberystwyth SY23 3ZE

☎ 0800 9177 969
✉ ymhol@estynllaw.org
🌐 www.estynllaw.org



Gwasanaethau Dwyieithog Rhoserchan

Mae Rhoserchan yn Ganolfan Breswyl sy'n cynnig y cam cyntaf mewn gwasanaeth adfer i ddyddion a menywod sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol. Mae'r ganolfan wedi ei lleoli yng nghefn gwlad Ceredigion, ac wedi bod yn cydweithio'n agos gydag Estyn Llaw ar faterion dwyieithrwydd. Mae staff Rhoserchan wedi sylweddoli bod darparu gwasanaeth dwyieithog yn hanfodol er mwyn cynnig y gofal proffesiynol gorau.

"Mae Rhoserchan yn cydnabod, gan ein bod yn gweithio mewn ardal ddwyieithog gyda defnyddwyr sydd naill ai â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith gyntaf, ei bod yn hanfodol bwysig i'n gwasanaeth ni i fod yn sensitif ac yn addas i anghenion y cleientiaid rydym yn eu gwasanaethu."

Anette Rumble, Rheolwr Busnes



Rhoserchan's Bilingual Services

Rhoserchan is a Residential Centre which offers first stage rehabilitation for men and women who are dependent on drugs and alcohol. The centre is located in the heart of rural Ceredigion, and has been working closely with Estyn Llaw on bilingualism issues. The staff at Rhoserchan have realised that providing a bilingual service is very important when offering the best and most professional service.

"Rhoserchan recognises that as we work in a bilingual area and with clients who use as their first language either Welsh or English, it is of the utmost importance that our service is sensitive, and appropriate for the clients we serve."

Anette Rumble, Business Manager



Cymdeithas Gymunedol Peniel

Pan sefydlwyd Cymdeithas Gymunedol Peniel, roedd yr aelodau yn ymwybodol o'r dechrau bod y Gymraeg yn bwysig iawn i bobl yr ardal, ac aethant ati i lunio Cynllun Iaith. Dywed Barrie Martin, cadeirydd y gymdeithas: "Cawsom gyngor gwerthfawr gan Estyn Llaw ynglŷn â chynnwys y Cynllun Iaith sydd erbyn hyn yn cael ei weithredu wrth drefnu digwyddiadau, gohebu, ymgynghori ac ati."

Yn ogystal, roeddent yn awyddus i gynnal gwersi Cymraeg i ddechreuwyd yn y pentref, felly cysylltodd Estyn Llaw â threfnydd Cymraeg i Oedolion Cyngor Sir Gâr, Sian Merlys. Erbyn hyn mae criw o bobl y pentref yn mwynhau gwersi Cymraeg wythnosol yn yr ysgol leol fel rhan o raglen addysg gymunedol y Cyngor Sir. Yng ngeiriau Sian Merlys, "Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae Estyn Llaw yn ei gyflawni ar lawr gwlad ac yn falch ein bod yn gallu cydweithio fel ein bod ni fel gwasanaeth yn clywed am yr anghenion yn y cymunedau."

Peniel Community Association

The founders of Peniel Community Association were aware from the outset that the Welsh language was very important to the local people in this area of Carmarthenshire, therefore with advice and support from Estyn Llaw a Language Scheme was created. "This helped ensure that we identified with the local residents particularly in terms of consultation, and also encouraged support and involvement with what we were attempting to achieve", says Barrie Martin, chairman of the association. "Estyn Llaw were able to offer us valuable advice in terms of inclusion or exclusion of particular references in the Language Scheme which is now a working document used in conjunction with any organised events, correspondence, consultation etc."

The association was also eager to hold Welsh classes for beginners in the village, therefore Estyn Llaw contacted the Welsh for Adults Organiser for Carmarthenshire County Council, Sian Merlys. Weekly classes are now enjoyed by a number of people at the local school as a part of the County Council's Community Education Programme. In the words of Sian Merlys, "We appreciate the work that Estyn Llaw achieves at grass roots level and we're glad to be able to cooperate so that we, as a service, hear of the needs in the communities."

Partneriaethau Iaith Sirol

Er mwyn medru cynnig gwasanaeth mwy effeithiol i fudiadau gwirfoddol yng Ngorllewin a Chanolbarth Cymru, mae Estyn Llaw ynghyd â nifer o gyrff eraill wedi dod at ei gilydd i greu partneriaethau iaith yn Sir Benfro, Powys, Ceredigion a Sir Gâr.

Diben y partneriaethau yw rhannu'r arbenigedd a'r profiadau amrywiol sydd gan fudiadau gwahanol, gan ymateb yn fwy pwrpasol i anghenion y sector gwirfoddol o fewn i'w siroedd, a'i gwneud yn haws i fudiadau dderbyn cyngor, cefnogaeth ac adnoddau er mwyn datblygu arferion dwyieithog.

Cewch fwy o wybodaeth am eich partneriaeth iaith leol drwy gysylltu ag Estyn Llaw ar ymhol@estynllaw.org neu drwy ffonio 0800 9177 969

County Welsh Language Partnerships

In order to be able to offer a more effective service to voluntary organisations in Mid and West Wales, Estyn Llaw and a number of other bodies have created Voluntary Sector Welsh Language Partnerships in Pembrokeshire, Powys, Ceredigion and Carmarthenshire.

The aim of these partnerships is to share the expertise and experiences within the various bodies, enabling us to respond effectively to the requirements of the voluntary sector within these counties, and to make it easier for organisations to receive advice, support and resources to enable them to develop bilingualism.

For more information about your local Welsh language partnership, contact Estyn Llaw on ymhol@estynllaw.org or by phoning 0800 9177 969



Cysylltiadau Defnyddiol/ Useful Contacts

Cwmni Iaith : Ymgynghoriaeth Cynllunio Iaith / Language Planning Consultancy
www.cwmni-iaith.com

Bwrdd yr Iaith / Welsh Language Board
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru / Association of Welsh Translators
www.cyfieithwycymru.org.uk

Mentrau Iaith
www.mentrau-iaith.com

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru / Welsh Council for Voluntary Action
www.wcva.org.uk

Twf: Magu Plant yn Ddwyieithog / Raising Children Bilingually
www.twfcymru.com
www.twfwales.com

Merched y Wawr
www.merchedywawr.com

Mudiad Ysgolion Meithrin
www.mym.co.uk

Seminar Datblygu Dwyieithrwydd

“Cynhyrchiol ac adeiladol” – dau ansoddair a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r seminar a gynhaliwyd ym Mae Caerdydd i drafod yr anghenion o ran datblygu dwyieithrwydd yn y sector gwirfoddol. Estyn Llaw ar y cyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru oedd yn gyfrifol am yr achlysur a ddenodd tua ugain o fudiadau gwirfoddol o'r De Ddwyrain yn bennaf.

Yn ystod y dydd, cafwyd gweithdai amrywiol ac anerchiadau gan Tom Jones, Cadeirydd y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol, Andrew White o Fwrdd yr Iaith, Steffan Webb o Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf, Gareth Ioan o Gwmni Iaith, Helen Prosser o Brifysgol Morgannwg a James Knight o Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru. Cyn i'r seminar ddirwyn i ben, cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut i ddatblygu strategaeth iaith ar gyfer y sector gwirfoddol – pwnc hanfodol sy'n sicrhau ei drafod cryn dipyn yn ystod y flwyddyn.



Developing Bilingualism Seminar

“Productive and constructive” – two adjectives used to describe the seminar held in Cardiff Bay in order to discuss developing bilingualism in the voluntary sector. The event was jointly organised by Estyn Llaw and the WCVA, and was attended by around

twenty organisations mostly from South East Wales.

During the day, a number of workshops were held, as well as presentations by Tom Jones, chair of the WCVA, Andrew White of the Welsh Language Board, Steffan Webb of Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, Gareth Ioan from Cwmni Iaith, Helen Prosser from the University of Glamorgan and James Knight President of NUS Wales. Finally a workshop examined how to develop a voluntary sector Welsh language strategy – a crucial issue that is certain to be discussed a great deal during the year.



Asthma UK Cymru yn Agor Swyddfa yng Nghaerdydd

Mae Asthma UK Cymru yn awyddus i ddatblygu dwyieithrwydd o fewn eu swyddfa newydd yng Nghymru, ac fel rhan o'r broses honno cynhaliodd Estyn Llaw sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ym mhrif swyddfa Asthma UK yn Llundain.

Wrth son am eu swyddfa newydd yng Nghaerdydd, meddai Marjory Burns, Cyfarwyddwraig Gweithredol Asthma UK: “Fel mudiad, rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd gwasanaethu siaradwyr Cymraeg yn ogystal â siaradwyr di-Gymraeg, ac rydym wedi cyflwyno ein Cynllun Iaith i Fwrdd yr Iaith i gael ei gymeradwyo. Er mwyn rhoi'r cychwyn gorau posib i weithredu'r cynllun, un o'r camau cyntaf oedd derbyn cyngor a chymorth gan Estyn Llaw, a chynnal diwrnod o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith er mwyn sicrhau fod ein staff a'n ymddiriedolwyr ym mhob rhan o Wledydd Prydain yn ymwybodol o bwysigrwydd dwyieithrwydd yng nghyd-destun y cydraddoldebau ac fel mater o arfer da.”

Asthma UK Cymru Opens its Office in Cardiff

Asthma UK Cymru is eager to develop bilingualism within their new office in Wales, and as part of this process, Estyn Llaw conducted a Welsh Language Awareness Event at the Asthma UK head office in London.

In reference to the new Cardiff based office, Marjory Burns, Executive Director of Asthma UK said: “As an organisation we are aware of the importance of being able to offer services to both Welsh and non-Welsh speakers, and have submitted our Welsh Language Scheme for approval by the Welsh Language Board. To help us make the best possible start in implementing it, one of the first steps was to contact Estyn Llaw for assistance, and to hold a Welsh language awareness training event to enable our staff and trustees from all parts of the UK to understand the importance of bilingualism within the equalities agenda, and as an issue of good practice.”

Sut i Ddod o Hyd i Gyfieithydd

Gyda nifer cynyddol o fudiadau gwirfoddol yn dymuno cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i'w haelodau a'u defnyddwyr, mae cynnydd cyfatebol yn y galw am gyfieithwyr sy'n medru trosi deunydd ysgrifenedig o'r Gymraeg i'r Saesneg neu o'r Saesneg i'r Gymraeg – ynghyd â chynnydd yn y galw am gyfieithwyr ar y pryd sy'n medru cyfieithu mewn cyfarfodydd a chynadleddau ac ati.

Ble felly allwch chi ddechrau chwilio am unigolyn neu asiantaeth addas? Mae'n bwysig cydnabod bod cyfieithu yn sgil arbenigol, ac nad yw unigolion o fewn eich mudiad sy'n digwydd bod yn medru'r Gymraeg o reidrwydd yn mynd i fedru gwneud gwaith cyfieithu, nac o reidrwydd yn mynd i fod yn fodlon gwneud hynny.

■ Mewn rhai ardaloedd, bydd eich Menter Iaith leol yn gallu cyfieithu eitemau byr megis posteri, tocynnau, arwyddion a thafleenni. Yn ogystal, mae rhai o'r mentrau iaith yn cyflogi cyfieithwyr cymunedol sydd â chyfraddau arbennig ar gyfer mudiadau yn y sector gwirfoddol, ac sy'n gwneud cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd. Cysylltwch â'ch Menter Iaith leol am fanylion. Ceir rhestr gyflawn ar www.mentrau-iaith.com

■ Mae Bwrdd yr Iaith hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu a golygu dros y ffôn ar gyfer darnau byr o waith. Mae Llinell Gyswllt â'r Gymraeg ar gael ar 0845 607 6070 ar gyfer cyfieithiadau hyd at 30 o eiriau, neu ar gyfer golygu hyd at 75 o eiriau.



Mae'r gwasanaeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9.00 – 5.00. Maent hefyd yn cynnig cyngor cyffredinol ynglŷn â materion dwyieithrwydd – adnodd defnyddiol iawn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, heblaw wrth gwrs am gost yr alwad.

■ Mae yna fudiad o'r enw Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, sef yr unig gorff cydnabyddedig sy'n cynrychioli ac yn achredu cyfieithwyr cymwys. Gellir cael hyd i'w gwefan ar www.cyfieithwycymru.org.uk ac yno fe gewch hyd i restrau o'r aelodau yn ôl eu lleoliad daearyddol.



How to Find a Translator

With an increasing number of voluntary organisations wishing to offer services through the medium of both Welsh and English to members and service users, there is a corresponding increase in the demand for translators able to translate written material from English into Welsh, or from Welsh into English – as well as an increased demand for simultaneous translators able to translate at meetings and conferences etc.

Where do you start looking for a suitable individual or agency? It's important to recognize that translating is a specialised skill and just because somebody within your organisation may happen to be a Welsh speaker doesn't automatically mean they are able or willing to undertake translation work.

■ In some cases your local Menter Iaith will translate short items such as posters, tickets, signs and flyers. Some Mentrau Iaith employ community translators who have special rates for voluntary sector organisations and will do both written and simultaneous translation. Contact your local Menter Iaith for details. A full list is

available at www.mentrau-iaith.com

■ Alternatively, if you need any assistance with short translations or need to proof-read material, the Welsh Language Board offers a telephone service for translations up to 30 words long, and for proof-reading/editing up to 75 words long. The number for this service (the Welsh Language Link Line) is 0845 607 6070. They are open Monday to Friday from 9.00 – 5.00. They also offer general advice on bilingualism issues – a very useful resource. The service itself is free of charge, apart, obviously, from the cost of the phone call.

■ There is also an organisation called Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, the Association of Welsh Translators and Interpreters. They are the officially recognised body that represents accredited and qualified translators. Their website is www.cyfieithwycymru.org.uk and you will be able to get a list of members according to their geographic location by visiting the website.

Dwyieithrwydd yn y Sector Iechyd a Gofal

Pan oedd Anika Lloyd yn feichiog roedd yn bwysig iawn iddi ei bod yn gallu siarad Cymraeg gyda'i bydwraig, Eirwen Jones, ac roedd yn brofiad cyfforddus a naturiol, yn enwedig gan ei bod yn gwybod mai Cymraeg fyddai hi'n siarad gyda'i babi, Hanna.

Yn ôl Anika, "Roeddwn yn gallu ymlacio yng nghwmni Eirwen a'i holi ynglŷn ag unrhyw beth oedd yn fy mhoeni gan ein bod yn cyfathrebu trwy gyfrwng fy iaith gyntaf. Oherwydd hyn roedd ein cyfeillgarwch yn well ac roeddwn yn teimlo bod y gwasanaeth yn fwy personol ac felly'n lleddfu unrhyw ofidiau."

"Fel bydwraig mewn ardal Gymreig fel Cwm Gwendraeth, mae'n hanfodol ein bod yn medru cynnig ein gofal yn y Gymraeg, a theimlaf fy mod yn medru cynnal gwasanaeth gwell wrth gyfathrebu'n Gymraeg gyda'r mamau ac aelodau'r teulu," meddai Eirwen Jones. "Mae'n bwysig i'r fam ymlacio a theimlo'n gysurus yn ystod yr enedigaeth a hefyd ei bod yn gallu mynegi ei theimladau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg."

Bilingualism in the Health and Care Sector

When Anika Lloyd was pregnant it was very important to her that she was able to speak Welsh with her midwife, Eirwen Jones, and it was a comfortable and natural experience, especially since she knew that she would speak Welsh with her baby, Hanna.

According to Anika, "I was able to relax in Eirwen's company and discuss any concerns since we communicated through the medium of my first language. Consequently, we had a closer friendship and I felt that the service was more personal and therefore allayed any fears."

"As a midwife in a predominantly Welsh speaking area like the Gwendraeth Valley, it's essential that we are able to offer our care in Welsh, and I feel that I am able to maintain a better service by communicating with the mothers and members of the family in Welsh," says Eirwen Jones. "It's important that the mother can relax and feel at home during the birth and that she can express her feelings through the medium of Welsh."



Ychydig o Ystadegau Ysgytwol

Yn Ôl Cyfrifiad 2001...

- ... mae **28,938** o bobl yn siarad Cymraeg yn Abertawe
- ... ymhlith plant ysgol mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg: **40.8%** ymhlith plant 5-15 oed
- ... Sir Gaerfyrddin yw'r ardal awdurdod lleol gyda'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg: **84,196**
- ... mae **20,599** o bobl yn siarad Cymraeg yn Sir y Fflint
- ... Caerdydd (yr awdurdod gyda'r boblogaeth fwyaf) oedd â'r cynnydd mwyaf yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg: i fyny **14,415**.

Rhwydwaith Gefnogi Cymunedau yn Gyntaf

Mae Estyn Llaw a Menter a Busnes wrthi yn gweithio ar amryw o brosiectau fel rhan o strategaeth Cymunedau yn Gyntaf – rhaglen sy'n anelu i wella amgylchiadau byw mewn cymunedau sydd naill ai'n ddifreintiedig, yn dioddef o amddifadedd neu yn 'gymunedau diddordeb'. Mae Menter a Busnes yn un o'r naw o gyrff sy'n aelodau o'r Rhwydwaith Cefnogi sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar ystod eang o bynciau.

Mewn cydweithrediad â Iaith Cyf. ac Estyn Llaw, mae Menter a Busnes wedi bod yn cynnig cymorth i bartneriaethau lleol ac i aelodau eraill y Rhwydwaith Cefnogi er mwyn sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu cydnabod o fewn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Communities First Support Network

Estyn Llaw and Menter a Busnes are currently working on a number of projects as part of the Communities First strategy – a programme which aims to improve the living conditions in communities that are either deprived, have pockets of deprivation or are classified as 'communities of interest'. Menter a Busnes are one of the nine partners within the Support Network who offer advice and support on a wide range of issues within Communities First areas.

In conjunction with Iaith Cyf. and Estyn Llaw, Menter a Busnes have been assisting local partnerships and other members of the Support Network in order to ensure that Welsh speakers are recognised and catered for within the Communities First Programme.



**menter
a Busnes**

Cytundebau 3ydd Parti

Ydych chi'n fudiad gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ar ran corff cyhoeddus? Os oes gennych gytundeb lefel gwasanaeth gyda chorff cyhoeddus, oeddech chi'n ymwybodol bod angen i chi gydymffurfio â chynllun iaith y corff hwnnw? Os hoffech chi dderbyn cyngor ynglŷn â datblygu dwyieithrwydd o fewn eich mudiad, cofiwch fod cymorth wrth law – Estyn Llaw.

Mae Estyn Llaw yn gweithredu ledled Cymru gyda swyddogion maes yn gweithio yn benodol yn Sir Benfro, Ceredigion, Powys a Sir Gâr. Cofiwch gysylltu: ymhol@estynllaw.org neu 0800 9177 969

3rd Party Contracts

Are you a voluntary organisation that provides services on behalf of a public body? If you have a service level agreement with a public body, were you aware that you need to be able to conform to that body's Welsh language scheme? If you would like advice and support regarding developing bilingualism within your organisation, remember that help is just an email or a phone call away – Estyn Llaw.

Estyn Llaw operates in all parts of Wales, with field officers working specifically in Pembrokeshire, Ceredigion, Powys and Carmarthenshire. Help is at hand: ymhol@estynllaw.org or 0800 9177 969

Some Staggering Statistics

According to the 2001 Census...

- ... there are **28,938** Welsh speakers in Swansea
- ... the highest percentages of Welsh speakers were found amongst children: **40.8%** in children aged 5-15 years
- ... Carmarthenshire is the local authority area with the largest number of Welsh speakers: **84,196**
- ... **20,599** people speak Welsh in Flintshire
- ... Cardiff (the authority with the largest population) had the largest increase in the number of Welsh speakers: up **14,415**